- (a) the Act,
- (b) a regulation or the code made under that Act, and
- (c) any other provision of, or made under, an act that has effect for the purposes of or in relation to—
  - (i) a provision of the Act or such regulations or code, or
  - (ii) a person to whom the Act or such regulations or code applies.

(5) For the purposes of this Order an appeal is finally determined if it is withdrawn, or if—

- (a) a decision is made by a tribunal or court on the appeal, and
- (b) if a request may be made to review the decision or it may be further appealed, and the period (or each of the periods) for doing so expires without a review being requested or further appeal being made.

(1) Diwygiwyd adran 8 gan adran 52 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).

(2) O.S. 2012/322 (Cy. 53).

(3) Diwygiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), adran 140 a pharagraff 180 o Atodlen 30 ac Atodlen 31.

(4) Arferai Tribiwnlys Addysg Cymru gael ei alw’n Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. *Gweler* adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

(5) Mewnosodwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), adran 82 a pharagraffau 1 a 59 o Atodlen 3 a diwygiwyd gan adran 95 o’r Ddeddf.

(1) Inserted by Children and Families Act 2014 (c. 6), section 82 and paragraphs 1 and 59 of Schedule 3 and amended by section 95 of the Act.

(2) Amended by School Standards and Framework Act 1998 (c. 31), section 140 and paragraph 180 of Schedule 30 and Schedule 31.

(3) The Education Tribunal for Wales was previously known as the Special Educational Needs Tribunal for Wales. *See* section 91 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018.

(4) S.I. 2012/322 (W. 53).

(6) At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn os yw yn ardal yr awdurdod.

(7) At ddibenion y Gorchymyn hwn, o ran plentyn—

- (a) pan fo'n blentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod lleol priodol yw'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn;
- (b) pan na fo'n blentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod lleol priodol yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn.

(8) At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae mater yn mynd rhagddo—

- (a) pan fydd awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996 ac nad yw'r asesiad wedi cychwyn ac nad oes hysbysiad wedi ei roi o dan adran 323(6) o Ddeddf 1996;
- (b) pan fydd cais wedi ei wneud o dan adran 329 neu 329A o Ddeddf 1996 am asesiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996 ac nad yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu pa un ai i gydymffurfio â'r cais;
- (c) pan fydd cais wedi ei wneud o dan adran 329 neu 329A o Ddeddf 1996 am asesiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996 a bod yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chydymffurfio â'r cais ac—
  - (i) nad yw'r amser y mae rhaid i apêl o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 gael ei gwneud ynddo o dan Ran B o Reolau'r Tribiwnlys wedi dod i ben;
  - (ii) bod apêl wedi ei gwneud i'r Tribiwnlys o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni; neu
  - (iii) dyfarnwyd yn derfynol ar apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a gorchymynnwyd i'r awdurdod lleol drefnu asesiad, ac nad yw'r asesiad hwnnw wedi cychwyn;
- (d) pan fydd awdurdod lleol yn ymgymryd ag asesiad o anghenion addysgol o dan adran 323 o Ddeddf 1996;
- (e) pan fydd awdurdod lleol yn bwriadu peidio â gwneud datganiad yn dilyn asesiad ac—
  - (i) nad yw'r cyfnod y mae rhaid i apêl o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 gael ei gwneud ynddo o dan Ran B o Reolau'r Tribiwnlys wedi dod i ben;

(6) For the purposes of this Order, a local authority is responsible for a child if he or she is in the area of the authority.

(7) For the purposes of this Order, where a child is—

- (a) a looked after child, the appropriate local authority is the local authority that looks after the child;
- (b) not a looked after child, the appropriate local authority is the local authority responsible for the child.

(8) For the purposes of this Order, a matter is ongoing when—

- (a) a local authority has served a notice under section 323 of the 1996 Act and the assessment has not commenced and no notice has been given under section 323(6) of the 1996 Act;
- (b) a request has been made under section 329 or 329A of the 1996 Act for an assessment under section 323 of the 1996 Act and the local authority has not determined whether to comply with the request;
- (c) a request has been made under section 329 or 329A of the 1996 Act for an assessment under section 323 of the 1996 Act and the local authority determines not to comply with the request and—
  - (i) the time within which an appeal under section 329(2) or 329A(8) of the 1996 Act has to be made under Part B of the Tribunal Rules has not expired;
  - (ii) an appeal to the Tribunal under section 329(2) or 329A(8) of the 1996 Act in relation to that determination has been made but not finally determined; or
  - (iii) an appeal to the Tribunal under section 329(2) or 329A(8) of the 1996 Act in relation to that determination was finally determined and the local authority was ordered to arrange an assessment, and that assessment has not commenced;
- (d) a local authority is undertaking an assessment of educational needs under section 323 of the 1996 Act;
- (e) a local authority proposes not to make a statement following an assessment and—
  - (i) the period within which an appeal under section 325(2) of the 1996 Act has to be made under Part B of the Tribunal Rules has not expired;



- (ii) bod apêl wedi ei gwneud i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni; neu
  - (iii) gwnaed apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol—
    - (aa) gwneud a chynnal datganiad ac nad yw'r broses o wneud y datganiad wedi cychwyn; neu
    - (bb) ailystyried ei benderfyniad ac nad yw'r ailystyried hwnnw wedi cychwyn;
  - (f) pan fydd rhaid i awdurdod lleol wneud datganiad o dan adran 324 o Ddeddf 1996 ond nad yw'r broses o wneud y datganiad wedi cychwyn;
  - (g) pan fydd rhaid i awdurdod lleol wneud datganiad o dan adran 324 o Ddeddf 1996 ond nad yw'r datganiad wedi ei wneud;
  - (h) pan fydd asesiad o dan adran 331 o Ddeddf 1996 yn mynd rhagddo.
- (9) At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae apêl yn mynd rhagddi—
- (a) pan fydd cais wedi ei wneud o dan adran 329 neu 329A o Ddeddf 1996 am asesiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996 a bod yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chydymffurfio â'r cais ac—
    - (i) bod apêl wedi ei gwneud i'r Tribiwnlys o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni; neu
    - (ii) dyfarnwyd yn derfynol ar apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol drefnu asesiad, ac nad yw'r asesiad hwnnw wedi cychwyn;
  - (b) pan fydd awdurdod lleol yn bwriadu peidio â gwneud datganiad yn dilyn asesiad ac—
    - (i) bod apêl wedi ei gwneud i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni; neu
    - (ii) an appeal to the Tribunal under section 325(2) of the 1996 Act in relation to that decision has been made but not finally determined; or
  - (iii) an appeal to the Tribunal under section 325(2) of the 1996 Act in relation to that decision was made and finally determined and the local authority was ordered to—
    - (aa) make and maintain a statement and the making of the statement has not commenced; or
    - (bb) reconsider its decision and that reconsideration has not commenced;
  - (f) a local authority must make a statement under section 324 of the 1996 Act but the making of the statement has not commenced;
  - (g) a local authority must make a statement under section 324 of the 1996 Act but the statement has not been made;
  - (h) an assessment under section 331 of the 1996 Act is ongoing.
- (9) For the purposes of this Order, an appeal is ongoing when—
- (a) a request has been made under section 329 or 329A of the 1996 Act for an assessment under section 323 of the 1996 Act and the local authority determines not to comply with the request and—
    - (i) an appeal to the Tribunal under section 329(2) or 329A(8) of the 1996 Act in relation to that determination has been made but not finally determined; or
    - (ii) an appeal to the Tribunal under section 329(2) or 329A(8) of the 1996 Act in relation to that determination was finally determined and the local authority was ordered to arrange an assessment, and that assessment has not commenced;
  - (b) a local authority proposes not to make a statement following an assessment and—
    - (i) an appeal to the Tribunal under section 325(2) of the 1996 Act in relation to that decision has been made but not finally determined; or

- (ii) gwnaed apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol—
  - (aa) gwneud a chynnal datganiad ac nad yw'r broses o wneud y datganiad wedi cychwyn; neu
  - (bb) ailystyried ei benderfyniad ac nad yw'r ailystyried hwnnw wedi cychwyn.

- (ii) an appeal to the Tribunal under section 325(2) of the 1996 Act in relation to that decision was made and finally determined and the local authority was ordered to—
  - (aa) make and maintain a statement and the making of the statement has not commenced; or
  - (bb) reconsider its decision and that reconsideration has not commenced.

### **Cymhwyso'r Gorchymyn hwn**

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i blentyn y mae mater yn mynd rhagddo mewn perthynas ag ef ar 1 Medi 2022.

### **Application of this Order**

2. This Order applies to a child in relation to whom there is a matter ongoing on 1 September 2022.

### **Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2022**

3. Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2022 mewn perthynas â phlentyn y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo—

- (a) adrannau 2 i 4;
- (b) adrannau 6 i 14;
- (c) adrannau 17 i 36;
- (d) adran 38;
- (e) adrannau 40 i 44;
- (f) adrannau 47 i 49;
- (g) adran 50(1) at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (h);
- (h) adran 50(4) a (5);
- (i) adrannau 51 i 53;
- (j) adran 55;
- (k) adran 59;
- (l) adrannau 63 i 66;
- (m) adrannau 68 a 69;
- (n) adran 96 at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (o);
- (o) yn yr Atodlen—
  - (i) paragraff 1;
  - (ii) paragraff 4(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraffau (iii) i (xi);
  - (iii) paragraff 4(2) i 4(6);

### **Provisions coming into force on 1 September 2022**

3. The following provisions of the Act come into force on 1 September 2022 in relation to a child to whom this Order applies—

- (a) sections 2 to 4;
- (b) sections 6 to 14;
- (c) sections 17 to 36;
- (d) section 38;
- (e) sections 40 to 44;
- (f) sections 47 to 49;
- (g) section 50(1) for the purposes of the provisions in paragraph (h);
- (h) section 50(4) and (5);
- (i) sections 51 to 53;
- (j) section 55;
- (k) section 59;
- (l) sections 63 to 66;
- (m) sections 68 and 69;
- (n) section 96 for the purposes of the provisions in paragraph (o);
- (o) in the Schedule—
  - (i) paragraph 1;
  - (ii) paragraph 4(1) for the purposes of the provisions in sub-paragraphs (iii) to (xi);
  - (iii) paragraph 4(2) to 4(6);

- (iv) paragraff 4(7) i'r graddau nad yw'r paragraff wedi ei ddiddymu mewn perthynas â'r plentyn(1);
- (v) paragraff 4(8) a (9);
- (vi) paragraff 4(10);
- (vii) paragraff 4(13) i 4(18);
- (viii) paragraff 4(19)(b);
- (ix) paragraff 4(20) a 4(21);
- (x) paragraff 4(23) i 4(29);
- (xi) paragraff 4(32)(a)(i) a (ii) a pharagraff 4(32)(b);
- (xii) paragraff 7;
- (xiii) paragraff 8;
- (xiv) paragraff 11(a);
- (xv) paragraff 12(a);
- (xvi) paragraff 14(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xvii);
- (xvii) paragraff 14(2) a (3);
- (xviii) paragraff 19(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xix);
- (xix) paragraff 19(5)(e)(ii);
- (xx) paragraff 21(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxi);
- (xxi) paragraff 21(2)(a)(i) a (2)(b)(ii);
- (xxii) paragraff 22;
- (xxiii) paragraff 23(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xxiv);
- (xxiv) paragraff 23(4);
- (xxv) paragraff 24(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxvi);
- (xxvi) paragraff 24(3) a (6)(a).

- (iv) paragraph 4(7) to the extent that the paragraph has not been repealed in relation to the child(1);
- (v) paragraph 4(8) and (9);
- (vi) paragraph 4(10);
- (vii) paragraph 4(13) to 4(18);
- (viii) paragraph 4(19)(b);
- (ix) paragraph 4(20) and 4(21);
- (x) paragraph 4(23) to 4(29);
- (xi) paragraph 4(32)(a)(i) and (ii) and paragraph 4(32)(b);
- (xii) paragraph 7;
- (xiii) paragraph 8;
- (xiv) paragraph 11(a);
- (xv) paragraph 12(a);
- (xvi) paragraph 14(1) for the purposes of the provisions in sub-paragraph (xvii);
- (xvii) paragraph 14(2) and (3);
- (xviii) paragraph 19(1) for the purpose of the provision in sub-paragraph (xix);
- (xix) paragraph 19(5)(e)(ii);
- (xx) paragraph 21(1) for the purposes of the provisions in sub-paragraph (xxi);
- (xxi) paragraph 21(2)(a)(i) and (2)(b)(ii);
- (xxii) paragraph 22;
- (xxiii) paragraph 23(1) for the purpose of the provision in sub-paragraph (xxiv);
- (xxiv) paragraph 23(4);
- (xxv) paragraph 24(1) for the purposes of the provisions in sub-paragraph (xxvi);
- (xxvi) paragraph 24(3) and (6)(a).

---

(1) Mae paragraff 4(7) (“y ddarpariaeth”) wedi ei ddiddymu gan baragraff 75 o Atodlen 2 i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4) (“Deddf 2021”). Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth wedi ei harbed gan Reoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022 (O.S. 2022/111 (Cy. 39)) mewn perthynas â phlentyn neu ddisgybl y darperir addysg iddo o dan yr hen gwricwlwm (h.y. nad yw Deddf 2021 wedi cychwyn mewn perthynas ag ef). Effaith y ddarpariaeth arbed honno yw bod paragraff 4(7) o'r Atodlen i'r Ddeddf yn parhau mewn grym hyd nes y darperir addysg o dan Ddeddf 2021 i'r plentyn neu'r disgybl.

---

(1) Paragraph 4(7) (“the provision”) has been repealed by paragraph 75 of Schedule 2 to the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (asc 4) (“the 2021 Act”). However, the provision has been saved by the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (Transitional and Saving Provision) Regulations 2022 (S.I. 2022/111 (W. 39)) in relation to a child or pupil provided with education under the old curriculum (i.e. in relation to whom the 2021 Act has not been commenced). The effect of that saving provision is that paragraph 4(7) of the Schedule to the Act remains in force until such time as the child or pupil is provided with education under the 2021 Act.

## Darpariaeth arbed

4. Yn ddarostyngedig i erthyglau 9 a 10 ac erthyglau 12 i 15, er bod Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf 1996(1) wedi ei datgymhwyso gan adran 96 o'r Ddeddf a pharagraff 4(9) o'r Atodlen iddi mewn perthynas â phlentyn y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo—

- (a) mae'r hen gyfraith yn parhau i gael effaith mewn perthynas â'r plentyn hwnnw, a
- (b) nid yw'r gyfraith newydd yn cael effaith mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

## Hysbysiad CDU

5. Hysbysiad a roddir i blentyn a rhiant plentyn yw hysbysiad CDU sy'n cadarnhau—

- (a) bod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol at ddibenion Pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf, a
- (b) y bydd cynllun datblygu unigol yn cael ei lunio ar gyfer y plentyn.

## Hysbysiad Dim CDU

6. Hysbysiad a roddir i blentyn a rhiant plentyn yw hysbysiad Dim CDU sy'n cadarnhau bod yr awdurdod lleol priodol wedi penderfynu nad oes gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol at ddibenion Pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf.

## Effaith hysbysiad CDU

7. Effaith yr hysbysiad CDU yw—

- (a) y bernir bod yr awdurdod lleol priodol wedi penderfynu ar ddyddiad yr hysbysiad bod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol o dan Bennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf,
- (b) bod y gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn ar y dyddiad hwnnw, ac
- (c) bod yr hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn ar y dyddiad hwnnw.

## Effaith hysbysiad Dim CDU

8. Effaith yr hysbysiad Dim CDU yw—

- (a) y bernir bod yr awdurdod lleol priodol wedi penderfynu ar ddyddiad yr hysbysiad nad oes gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol o dan Bennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf,

## Saving provision

4. Subject to articles 9 and 10 and articles 12 to 15, despite the disapplication by section 96 and paragraph 4(9) of the Schedule to the Act of Chapter 1 of Part 4 of the 1996 Act(1) in relation to a child to whom this Order applies—

- (a) the old law continues to have effect in relation to that child, and
- (b) the new law does not have effect in relation to that child.

## IDP notice

5. An IDP notice is a notice given to a child and a child's parent which confirms that—

- (a) the child has additional learning needs for the purposes of Chapter 2 of Part 2 of the Act, and
- (b) an individual development plan will be prepared for the child.

## No IDP notice

6. A No IDP notice is a notice given to a child and a child's parent which confirms that the appropriate local authority has decided that the child does not have additional learning needs for the purposes of Chapter 2 of Part 2 of the Act.

## Effect of IDP notice

7. The effect of the IDP notice is that—

- (a) the appropriate local authority is deemed to have decided on the date of the notice that the child has additional learning needs under Chapter 2 of Part 2 of the Act,
- (b) the new law applies in relation to the child on that date, and
- (c) the old law ceases to apply in relation to the child on that date.

## Effect of No IDP notice

8. The effect of the No IDP notice is that—

- (a) the appropriate local authority is deemed to have decided on the date of the notice that the child does not have additional learning needs under Chapter 2 of Part 2 of the Act,

---

(1) *Gweler* erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a gychwynnodd y darpariaethau hynny.

---

(1) *See* article 3 of this Order which commenced those provisions.

- (b) bod y gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn ar y dyddiad hwnnw, ac
- (c) bod yr hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn ar y dyddiad hwnnw.

- (b) the new law applies in relation to the child on that date, and
- (c) the old law ceases to apply in relation to the child on that date.

### **Dyletswydd i roi hysbysiad**

9.—(1) Pan fo awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996, ac nad yw'r asesiad hwnnw wedi cychwyn erbyn 1 Medi 2022, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 1 Medi 2022.

(2) Pan fo cais yn cael ei wneud o dan adran 329 neu 329A o Ddeddf 1996 ac nad yw'r awdurdod lleol ar 1 Medi 2022 wedi penderfynu pa un ai i gydymffurfio â'r cais, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 1 Medi 2022.

(3) Pan fo awdurdod lleol yn cynnal asesiad o dan adran 323 neu 331 o Ddeddf 1996 ar 1 Medi 2022, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 1 Medi 2022.

(4) Pan na fo'r cyfnod ar gyfer dwyn apêl o dan adran 325(2), 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 wedi dod i ben ar 1 Medi 2022, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 1 Medi 2022.

(5) Pan fo apêl wedi ei gwneud i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2), 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 a bod yr apêl honno yn mynd rhagddi ar 1 Medi 2022, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r apêl honno gael ei dyfarnu'n derfynol.

(6) Pan fo rhaid i awdurdod lleol wneud datganiad o dan adran 324 o Ddeddf 1996 ac nad yw'r broses o wneud y datganiad wedi cychwyn neu nad yw'r datganiad wedi ei wneud ar 1 Medi 2022, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 1 Medi 2022.

### **Duty to give a notice**

9.—(1) Where a local authority has served a notice under section 323 of the 1996 Act, and that assessment has not commenced by 1 September 2022, the appropriate local authority must either give an IDP notice or a No IDP notice to the child and the child's parent as soon as reasonably practicable after 1 September 2022.

(2) Where a request is made under section 329 or 329A of the 1996 Act and on 1 September 2022 the local authority has not determined whether to comply with the request, the appropriate local authority must either give an IDP notice or a No IDP notice to the child and the child's parent as soon as reasonably practicable after 1 September 2022.

(3) Where a local authority is conducting an assessment under section 323 or 331 of the 1996 Act on 1 September 2022, the appropriate local authority must either give an IDP notice or a No IDP notice to the child and the child's parent as soon as reasonably practicable after 1 September 2022.

(4) Where the period for bringing an appeal under section 325(2), 329(2) or 329A(8) of the 1996 Act has not expired on 1 September 2022, the appropriate local authority must either give an IDP notice or a No IDP notice to the child and the child's parent as soon as reasonably practicable after 1 September 2022.

(5) Where an appeal has been made to the Tribunal under section 325(2), 329(2) or 329A(8) of the 1996 Act and that appeal is ongoing on 1 September 2022, the appropriate local authority must either give an IDP notice or a No IDP notice to the child and the child's parent as soon as reasonably practicable after that appeal is finally determined.

(6) Where a local authority must make a statement under section 324 of the 1996 Act and on 1 September 2022 the making of the statement has not commenced or the statement has not been made, the appropriate local authority must either give an IDP notice or a No IDP notice to the child and the child's parent as soon as reasonably practicable after 1 September 2022.

## **Hawl i ofyn am hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU**

**10.**—(1) Caiff plentyn y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo neu riant y plentyn hwnnw ofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU a rhaid i'r awdurdod lleol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cais.

(2) Nid yw'r ddyletsydd i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU ym mharagraff (1) yn gymwys—

- (a) pan fydd apêl yn mynd rhagddi mewn perthynas â'r plentyn hwnnw, neu
- (b) pan fydd erthyglau 12 i 15 yn gymwys.

## **Amser ar gyfer rhoi cynllun datblygu unigol**

**11.**—(1) Pan roddir hysbysiad CDU yn unol ag erthygl 9 neu 10, rhaid rhoi copi o'r cynllun datblygu unigol i'r plentyn a riant y plentyn o fewn 12 wythnos i ddyddiad yr hysbysiad oni bai—

- (a) bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn adran 12(2) o'r Ddeddf yn gymwys,
- (b) bod adran 31 o'r Ddeddf yn gymwys, neu
- (c) bod amgylchiadau eithriadol.

(2) Os yw unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn adran 12(2) yn gymwys neu os oes amgylchiadau eithriadol, rhaid rhoi copi o'r cynllun datblygu unigol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Nid yw unrhyw amserlenni yn y cod sy'n ymwneud â llunio cynllun datblygu unigol yn gymwys pan fydd cynllun datblygu unigol yn cael ei lunio yn dilyn rhoi hysbysiad CDU.

## **Plant nad yw'r gyfraith newydd yn gymwys iddynt erbyn dyddiad penodol**

**12.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn—

- (a) nad oes apêl yn mynd rhagddi mewn perthynas ag ef ar 30 Awst 2024,
- (b) nad yw erthygl 13 yn gymwys iddo, ac
- (c) nad yw'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas ag ef ar 30 Awst 2024.

(2) Ar 31 Awst 2024—

- (a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a
- (b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.

## **Right to request an IDP notice or a No IDP notice**

**10.**—(1) A child to whom this Order applies or that child's parent may request that the appropriate local authority gives an IDP notice or a No IDP notice and the local authority must give either an IDP notice or a No IDP notice as soon as reasonably practicable after the request.

(2) The duty to give an IDP notice or a No IDP notice in paragraph (1) does not apply when—

- (a) an appeal is ongoing in relation to that child, or
- (b) articles 12 to 15 apply.

## **Time for giving an individual development plan**

**11.**—(1) When an IDP notice is given pursuant to article 9 or 10 a copy of the individual development plan must be given to the child and the child's parent within 12 weeks of the date of the notice unless—

- (a) any of the circumstances in section 12(2) of the Act apply,
- (b) section 31 of the Act applies, or
- (c) there are exceptional circumstances.

(2) If any of the circumstances in section 12(2) apply or there are exceptional circumstances a copy of the individual development plan must be given as soon as is reasonably practicable.

(3) Any timescales in the code relating to the preparation of an individual development plan do not apply when an individual development plan is prepared following the giving of an IDP notice.

## **Children for whom the new law does not apply by a certain date**

**12.**—(1) This article applies to a child—

- (a) in relation to whom there is no ongoing appeal on 30 August 2024,
- (b) to whom article 13 does not apply, and
- (c) in relation to whom the new law does not apply on 30 August 2024.

(2) On 31 August 2024—

- (a) the new law applies in relation to the child, and
- (b) the old law ceases to apply in relation to the child.

**13.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn pan fo'r awdurdod lleol yn cael ei orchymyn i gyflawni gweithred o ganlyniad i ddyfarniad terfynol ar apêl sy'n mynd rhagddi ac nad yw'r weithred wedi ei chyflawni erbyn 30 Awst 2024.

(2) Ar y diwrnod trosglwyddo—

- (a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a
- (b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr “diwrnod trosglwyddo” yw'r diwrnod ar ôl i'r weithred y cyfeirir ati ym mharagraff (1) gael ei chyflawni, neu'r diwrnod ar ôl i'r holl weithredoedd gael eu cyflawni os oes mwy nag un weithred.

**14.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn pan fo apêl yn mynd rhagddi ar 30 Awst 2024 mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

(2) Ar y diwrnod trosglwyddo—

- (a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a
- (b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr “diwrnod trosglwyddo” yw—

- (a) oni bai bod is-baragraff (b) yn gymwys, y diwrnod ar ôl i'r apêl gael ei dyfarnu'n derfynol;
- (b) pan fo'r awdurdod lleol yn cael ei orchymyn i gyflawni gweithred o ganlyniad i ddyfarniad terfynol ar yr apêl sy'n mynd rhagddi, y diwrnod ar ôl i'r weithred gael ei chyflawni, neu'r diwrnod ar ôl i'r holl weithredoedd gael eu cyflawni os oes mwy nag un weithred.

## Newid mewn amgylchiadau

**15.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn—

- (a) sy'n symud o ardal yr awdurdod lleol yr oedd y plentyn ynddi ar 1 Medi 2022,
- (b) nad oes cais wedi ei wneud am hysbysiad CDU nac hysbysiad Dim CDU ar ei gyfer, ac
- (c) y mae'r hen gyfraith yn gymwys iddo.

(2) Ar y dyddiad y mae'r plentyn yn symud o ardal yr awdurdod lleol yr oedd y plentyn ynddi ar 1 Medi 2022—

- (a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a
- (b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.

**13.**—(1) This article applies to a child where the local authority is ordered to perform an action as a result of an ongoing appeal being finally determined and the action has not been performed by 30 August 2024.

(2) On the transfer day—

- (a) the new law applies in relation to the child, and
- (b) the old law ceases to apply in relation to the child.

(3) In this article “transfer day” means the day after which the action referred to in paragraph (1) is performed, or all of the actions have been performed if there is more than one action.

**14.**—(1) This article applies to a child where an appeal is ongoing on 30 August 2024 in relation to that child.

(2) On the transfer day—

- (a) the new law applies in relation to the child, and
- (b) the old law ceases to apply in relation to the child.

(3) In this article “transfer day” means—

- (a) unless sub-paragraph (b) applies, the day after the appeal is finally determined;
- (b) where the local authority is ordered to perform an action as a result of the ongoing appeal being finally determined, the day after which the action is performed, or all of the actions have been performed if there is more than one action.

## Change of circumstances

**15.**—(1) This article applies to a child—

- (a) who moves from the area of the local authority in which the child was in on 1 September 2022,
- (b) for whom a request for an IDP notice or a No IDP notice has not been made, and
- (c) in relation to whom the old law applies.

(2) On the date that the child moves from the area of the local authority in which the child was in on 1 September 2022—

- (a) the new law applies in relation to the child, and
- (b) the old law ceases to apply in relation to the child.

## **Sylw i ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarparwyd cyn hysbysiad CDU**

16. Pan fo cynllun datblygu unigol yn cael ei lunio ar gyfer plentyn o fewn 12 wythnos i symud i'r gyfraith newydd, rhaid rhoi sylw i unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarparwyd i'r plentyn yn union cyn symud i'r gyfraith newydd.

## **Galluedd plant**

17.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae paragraff (3) yn gymwys i blentyn y mae mater yn mynd rhagddo mewn perthynas ag ef ar 1 Medi 2022.

(2) Nid oes dim yn yr erthygl hon sy'n gymwys i berson pan fydd y person hwnnw yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol.

(3) Nid yw dyletswydd ym mharagraff (4) yn gymwys os yw'r awdurdod lleol priodol yn ystyried nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall y mater o dan sylw.

(4) Y dyletswyddau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yw—

- (a) y ddyletswydd i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i blentyn yn erthygl 9;
- (b) y ddyletswydd i roi hysbysiad yn dilyn cais gan blentyn o dan erthygl 10;
- (c) y ddyletswydd i roi copi o'r cynllun datblygu unigol i blentyn o fewn 12 wythnos yn erthygl 11(1).

(5) Pan fo paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â dyletswydd ym mharagraff (4)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 5 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

(6) Pan fo paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â dyletswydd ym mharagraff (4)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 6 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

## **Plant sy'n dod yn bersonau ifanc cyn bod y gyfraith newydd yn gymwys**

18.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i blentyn y mae mater yn mynd rhagddo mewn perthynas ag ef ar 1 Medi 2022.

(2) Nid yw dyletswydd ym mharagraff (3) na'r pŵer ym mharagraff (4) yn gymwys pan fydd person yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol.

(3) Y dyletswyddau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

- (a) y ddyletswydd i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i riant yn erthygl 9;
- (b) y ddyletswydd i roi hysbysiad yn dilyn cais gan riant o dan erthygl 10;

## **Regard to special educational provision provided before IDP notice**

16. Where an individual development plan is being prepared for a child within 12 weeks of moving to the new law, regard must be had to any special educational provision provided to the child immediately before moving to the new law.

## **Capacity of children**

17.—(1) Subject to paragraph, paragraph applies to a child in relation to whom there is a matter ongoing on 1 September 2022.

(2) Nothing in this article applies to a person when that person ceases to be of compulsory school age.

(3) A duty in paragraph (4) does not apply if the appropriate local authority considers that the child does not have capacity to understand the subject matter.

(4) The duties referred to in paragraph (3) are —

- (a) the duty to give a child an IDP notice or a No IDP notice in article 9;
- (b) the duty to give a notice following a request by a child under article 10;
- (c) the duty to give a child a copy of the individual development plan within 12 weeks in article 11(1).

(5) Where paragraph (3) applies in relation to a duty in paragraph (4)(a) or (b), the first reference to a child in article 5 is to be read as if it were omitted.

(6) Where paragraph (3) applies in relation to a duty in paragraph (4)(a) or (b), the first reference to a child in article 6 is to be read as if it were omitted.

## **Children who become young persons before the new law applies**

18.—(1) Paragraph (2) applies to a child in relation to whom there is a matter ongoing on 1 September 2022.

(2) A duty in paragraph (3) or the power in paragraph (4) does not apply when a person ceases to be of compulsory school age.

(3) The duties referred to in paragraph (2) are—

- (a) the duty to give a parent an IDP notice or a No IDP notice in article 9;
- (b) the duty to give a notice following a request by a parent under article 10;



(c) y ddyletswydd i roi copi o'r cynllun datblygu unigol i riant o fewn 12 wythnos yn erthygl 11(1).

(4) Y pŵer y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yw y pŵer i riant ofyn am hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU yn erthygl 10.

(5) Pan fo paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â dyletswydd ym mharagraff (3)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at riant plentyn yn erthygl 5 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

(6) Pan fo paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â dyletswydd ym mharagraff (3)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at riant plentyn yn erthygl 6 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

(c) the duty to give a parent a copy of the individual development plan within 12 weeks in article 11(1).

(4) The power referred to in paragraph (2) is the power for a parent to request an IDP notice or a No IDP notice in article 10.

(5) Where paragraph (2) applies in relation to a duty in paragraph (3)(a) or (b), the first reference to a child's parent in article 5 is to be read as if it were omitted.

(6) Where paragraph (2) applies in relation to a duty in paragraph (3)(a) or (b), the first reference to a child's parent in article 6 is to be read as if it were omitted.

*Jeremy Miles*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion  
Cymru  
16 Awst 2022

Minister for Education and Welsh Language, one of  
the Welsh Ministers  
16 August 2022

---

©Hawlfraint y Goron 2022

---

© Crown copyright 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.






£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/892>

ISBN 978-0-348-39355-2



9 780348 393552